

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2012

Amser:
09:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Polisi: Claire Morris
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8032
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Agenda

- 1. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 2 a 3: (9.15)**
- 2. Trafod y Flaenraglen Waith (9.15 – 9.45)**
- 3. Y Dull o Graffu ar Gyllideb Ddrafft 2013–14 (9.45 – 10.00)**
- 4. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
- 5. Sesiwn Graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i Fabwysiadu (10.00 – 11.00)**
(Tudalennau 1 – 8)
Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Rogers, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
Debra Jenkins, Pennaeth y Tîm Plant sy'n Agored i Niwed
(Egwyl– 11.00 – 11.05)
- 6. Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru): Cyfnod 1 – Sesiwn dystiolaeth 6 (11.05 – 12.30)**
Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y**

cyhoedd o weddill y cyfarfod (12.30)

8. Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru): Cyfnod 1 – Ystyried y materion allweddol (12.30 – 1.15)

9. Papurau i'w nodi

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru): Cyfnod 1 – Crynodeb o'r materion a godwyd gan y grwpiau ffocws (Tudalennau 9 – 22)

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

Diben

Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf am wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru ac am ddyhead Llywodraeth Cymru i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor i fabwysiadu. Rydym yn ymchwilio i gylch gwaith a swyddogaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ac yn cydweithio â llywodraeth leol a'r trydydd sector i ddatblygu model Cymru gyfan.

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn glynu'n gadarn wrth yr egwyddor sy'n sylfaen i Ddeddf Plant 1989 mai'r peth gorau, lle bo modd, yw i blant gael gofal gan eu teuluoedd neu eu teuluoedd estynedig. Sut bynnag, i sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc, cydnabyddwn mai byw oddi cartref yw'r ateb gorau i rai plant.
2. Yn Chwefror 2011, cyhoeddwyd *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Roedd yn nodi'n glir y gellid cyflenwi rhai gwasanaethau yn fwy effeithiol yn genedlaethol, ac roeddem am ddatblygu hyn drwy weithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i gylch gwaith a swyddogaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Rydym am i awdurdodau lleol weithredu'n gynt i ddod o hyd i gartrefi parhaol i blant na fyddai'n llesol iddynt ddychwelyd adref, ac i wella'r ffordd yr hyrwyddir mabwysiadu i gynyddu'r gronfa o fabwysiadwyr.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mynd ati'n dda i gynllunio a chomisiynu lleoliadau o ansawdd yn hanfodol i sicrhau gwell canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gall ystod o leoliadau o ansawdd wneud hyn, drwy nodi anghenion plant a phobl ifanc, tra'n sicrhau bod eu bywydau'n parhau i gael eu diogelu gan drefniadau priodol. Mae dros dri chwarter o'r plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maethu, trefniant dros dro ydyw i rai, ond i nifer o blant, yn enwedig plant hyn sydd â chysylltiad â'u rhieni biolegol, gofal maeth hirdymor yw'r opsiwn parhaol gorau o ran gofal; cyflwynwyd Gwarchodaethau Arbennig yn 2005 i roi i ofalwyr maeth, perthynas neu gyfaill teuluol gyfrifoldeb rhiant am blentyn heb dorri'r cysylltiad â'i rieni biolegol; plant yn eu harddegau yn y system (37% rhwng 13 a 18 oed) y mae gan lawer ohonynt anghenion uwch sy'n gofyn gofal arbenigol. I'r bobl ifanc hyn mae'n bosibl mai lleoliad preswyl fyddai orau am fod modd iddynt gael gofal gan weithwyr proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r profiadau i'w hannog i gyrraedd eu holl botensial.

Y sefyllfa bresennol

4. Mae mabwysiadu yn broses gymhleth ac mae angen cryn wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion plant a'r problemau amrywiol sy'n eu hwynebu. Bydd y gweithwyr cymdeithasol sy'n cynllunio ac yn trefnu ac yn paratoi plentyn a'i deulu biolegol ar gyfer mabwysiadu yn ymgymryd â thasg helaeth, yn aml yn erbyn cefndir o achosion gofal anodd a chynhennus sy'n gorfodi eu hamserlenni eu hunain ac yn mynnu bod adroddiadau a chynlluniau gofal

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

cymhleth yn cael eu llunio.

5. Yn y gorffennol, oherwydd rhaniad daearyddol yr awdurdodau lleol, roedd llond llaw o asiantaethau bach iawn yn delio ag ardaloedd gwledig eang ac ni fyddent yn lleoli mwy na dyrnaid o blant bob blwyddyn nac yn recriwtio mwy na nifer fach o ddarpar fabwysiadwyr. Mae'r asiantaethau hyn wedi gweld drostynt eu hunain fantais cydweithio â'i gilydd i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu mwy hyfedr a chost-effeithiol.

Plant mewn Gofal

6. Mae angen teulu sefydlog a chariadlon ar blant ac weithiau ni all rhieni biolegol ofalu am eu plant eu hunain. Ar 31 Mawrth 2011, roedd 5,419 o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru, a 3,635 ohonynt yn destun Gorchymyn Gofal, ar ôl i awdurdodau lleol fodloni'r llys teulu mai'r peth gorau i'r plant hyn fyddai eu rhoi dan ofal. Mae'r categori hwn o blant mewn gofal yn annhebygol o ddychwelyd at eu teulu biolegol, felly, sicrhau'r gofal gorau posibl ar eu cyfer yw un o gyfrifoldebau pwysicaf y wladwriaeth.
7. Dros y 5 mlynedd diwethaf, roedd y rhan fwyaf o'r plant a fabwysiadwyd rhwng 1 a 4 blwydd oed. Mae nifer y plant sy'n aros 2-3 blynedd cyn cael eu mabwysiadu wedi codi 46% o 65 yn 2006 i 95 yn 2011. Yn 2011, er bod yr amser cyfartalog rhwng dechrau derbyn gofal a mabwysiadu wedi lleihau o 954 diwrnod (tua 2 flynedd a 7 mis) i 905 diwrnod (tua 2 flynedd a 5 mis), mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr oedi yn y system fabwysiadu ac yn dal i boeni am hynny ac am y niwed parhaol y gall hyn ei achosi i blant agored i niwed, drwy ddwyn oddi arnynt eu cyfle gorau i gael cariad a sefydlogrwydd mewn teulu newydd.
8. I Blant sy'n Derbyn Gofal gall mabwysiadu fod yn opsiwn cadarnhaol, yn enwedig i blant iau, ond hefyd i rai plant hŷn. Bydd mabwysiadu yn rhoi i blant agored i niwed, gan gynnwys nifer ag anghenion cymhleth a hanes o gael eu cam-drin, y sefydlogrwydd mwyaf posibl mewn cartref parhaol gyda theulu parhaol.
9. Nid yw Llywodraeth Cymru yn hollol siŵr bod y system gyfredol bob amser yn gweithio er lles y plentyn. Er 31 Mawrth 2011, mae dros 2,000 o blant wedi bod mewn gofal am 3 blynedd neu fwy; yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 roedd 252 o fabwysiaidau, sef 4.7% o'r boblogaeth gyfan o Blant sy'n Derbyn Gofal – ac nid yw'r ystadegyn hwnnw'n creu darlun calonogol.

Darpar Fabwysiadwyr

10. Mae niferoedd y mabwysiadwyr cymeradwy wedi gostwng yn y 18 mis diwethaf. Mae Asiantaethau Mabwysiadu a'r Gofrestr Fabwysiadu wedi nodi'r taer angen i recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr posibl, proses sy'n gallu cymryd rhwng 6 ac 8 mis i'w chwblhau. Yn amlwg, caiff y prinder hwn o fabwysiadwyr posibl effaith aruthrol ar y pariadau addas sydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu. Mae BAAF yn amcangyfrif na fydd 1 o bob 4 o'r plant sydd ar gael i'w mabwysiadu yn cael eu lleoli, yn bennaf oherwydd prinder rhieni mabwysiol.
11. Mae nifer o'r darpar fabwysiadwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a gânt, ond mae rhai yn anfodlon. Er bod rhai darpar fabwysiadwyr yn cael sicrwydd a chymorth croesawgar yn ystod eu hymholiadau cychwynnol ynghylch mabwysiadu, profiad eraill yw fod asiantaethau mabwysiadu yn ymateb yn araf i ymholiadau cychwynnol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod darpar fabwysiadwyr mewn gwahanol rannau o'r wlad yn cael eu gwrthod neu'n gwneud cynnydd araf yn y broses asesu am nad ydynt yn diwallu anghenion penodol, cyfredol yr asiantaeth y maent wedi cyflwyno cais iddi, ac mae hynny'n dangos

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

bod yna ddiffyg cydgysylltu yn gyffredinol o ran cyflenwad a galw. Mae rhai darpar fabwysiadwyr yn teimlo bod y broses asesu yn cymryd llawer gormod o amser a llawer mwy na'r 8 mis a nodir yn y canllawiau statudol. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'ch ymchwiliad ac a gasglwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod darpar fabwysiadwyr yn teimlo bod y broses asesu yn canolbwyntio ar dicio blychau ac ysgrifennu adroddiadau hir, yn hytrach nag ar eu gallu i fagu plentyn. Os ydym i gynyddu'r nifer o ddarpar fabwysiadwyr, yn enwedig y rhai a all ddiwallu anghenion amrywiol ein plant sy'n derbyn gofal, yn arbennig plant hŷn, grwpiau sibling, a phlant ag anabledau, rhaid i asiantaethau mabwysiadu adolygu'r system gyfredol. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod gwasanaethau ôl-fabwysiadu yn fylchog ledled Cymru; gall hyn fod yn ganlyniad i leoliad daeryddol yr asiantaethau neu i gyfyngiadau ariannol cyfredol.

12. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod y broses baru a ddefnyddir ar hyn o bryd gan asiantaethau yn aneffeithiol. Wrth edrych ar y rhwystrau i baru, mae'r prif broblemau a nodwyd gan nifer o ffynonellau yn deillio o agweddau gweithiwr cymdeithasol y plentyn, sy'n dal i chwilio am y 'teulu delfrydol'¹; mae diffyg cyfathrebu rhwng gweithiwr cymdeithasol y plentyn a gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiadwyr hefyd wedi peri i weithiwr cymdeithasol 'atal' pariadau posibl².

Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru): Adran a Theitl: 6.1 – Mabwysiadu

13. Roedd y mwyafrif o'r holl ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion polisi cyffredinol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Roedd ymatebion yn awgrymu y byddai Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:
 - yn amlygu ac yn lleihau anghysonderau mewn gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru; ac
 - yn galluogi gwasanaeth cyson a safonedig, i fynd i'r afael â'r gwasanaeth amrywiol sydd ar gael i blant a mabwysiadwyr, sy'n dibynnu ar hyn o bryd ar adnoddau a sgiliau awdurdodau lleol penodol.

Awgrymodd eraill fod hyn yn gyfle i adolygu darpariaethau mabwysiadu yng Nghymru, gan sicrhau na chaiff arferion da a chyflawniadau cyfredol eu glastwreiddio na'u hanwybyddu.

14. Ymgynghorwyd hefyd â phlant a phobl ifanc gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, gofalywyr ifanc a phlant anabl yn rhan o waith a gomisiynwyd. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cefnogi'r cynigion yn unfrydol ac roedd y plant sy'n derbyn gofal yn arbennig o gadarnhaol ynghylch y syniad o ddatblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
15. Cydnabyddaf, fodd bynnag, fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnig ffyrdd eraill o gynyddu effeithlonrwydd, er enghraifft drwy seilio'r trefniant cenedlaethol ar gydweithredu rhanbarthol, a byddwn yn ystyried manteision eu cynnig yn ofalus.

Cyfiawnder Teuluol

16. Nodwyd drwy'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol fod yr amser a gymerir gan y llysoedd i benderfynu rhoi gorchymyn gofal (interim neu lawn) i awdurdodau lleol yn destun pryder. Mae'r broses hon yn gyfrifoldeb i'r system cyfiawnder teuluol gyfan – sy'n cynnwys staff llys lleol, barnwyr, cyfreithwyr, awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol a

¹ Farmer, E.; Dance, C.; Beecham, J.; Bonin, E. ac Ouwejan, D. (2010) *An investigation of family finding and matching in adoption – briefing paper*.

² BAAF, Gwneud y Defnydd Gorau o'r Gofrestr Fabwysiadu, Peilot, Ionawr 2011 hyd Ionawr 2012.

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

chyngorwyr arbenigol eraill, gan gynnwys y rheini o'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS Cymru). Ond ar hyn o bryd, fel y cadarnhaodd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol diweddar, mae hon yn broses sy'n cymryd llawer gormod o amser – cyfartaledd o 55 wythnos.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

17. Nod Llywodraeth Cymru yw gweddnewid gwasanaethau mabwysiadu, i atal yr oedi a'r dyblygu diangen a gaiff effaith mor negyddol ar y canlyniadau i'n plant sy'n derbyn gofal. Dymunwn nodi'r agweddau ar y broses fabwysiadu a gyflawnir orau ar lefel genedlaethol, tra'n cydnabod bod yna swyddogaethau a ddylai barhau yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol unigol – newid heb niwed.
18. O dan ymbarél Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, bydd Cymru'n datblygu model cenedlaethol a gaiff asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau mabwysiadu. Bydd pwerau newydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r holl awdurdodau lleol (asiantaethau mabwysiadu) ddod ynghyd i greu un Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gyflawni swyddogaethau mabwysiadu penodol. Ein syniad ar hyn o bryd yw y byddai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gyfrifol:
 - Am roi arweiniad Cenedlaethol a throsolygu gwasanaethau mabwysiadu (o ran Safonau, perfformiad a gwella);
 - Am fframwaith ar gyfer cymeradwyaethau mabwysiadu (gan gynnwys paneli);
 - Am sefydlu canolfan adnoddau, i roi porth i fabwysiadwyr posibl, yn darparu – gwybodaeth ar raglenni hyfforddi, gwybodaeth ar y broses asesu a llinell gyngor; ac
 - Am hyrwyddo mabwysiadu, os dyna sydd orau i'r plentyn, recriwtio darpar fabwysiadwyr a datblygu gweithlu arbenigol a hyfedr.
19. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn dwyn manteision mwy ac yn gyfle i grynhoi'r bobl arbenigol hyfedr hyn. Bydd hynny'n gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y broses asesu, yn sicrhau tegwch yn y trefniadau ar gyfer mabwysiadu, ac yn annog cronni darpar fabwysiadwyr a chyflawni mwy effeithlon ac effeithiol drwy fwy o gydrafurio a chydweithredu ar draws ffiniau i harneisio natur arbenigol y gwasanaeth mabwysiadu.
20. Dylai sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol helpu i ryddhau capasiti, gan alluogi gwasanaethau gofal plant awdurdodau lleol i ganolbwyntio mwy ar drefniadau lleoli ar gyfer y plentyn. Gall hyn gynnwys gwaith ynghylch paratoi a chynnal y cynllun mabwysiadu; a'r gwaith manwl a thrylwyr sy'n ofynnol gan y llysoedd ar gyfer adroddiadau ac asesiadau plant, wrth wneud cais am orchymyn lleoli/mabwysiadu. At hynny, byddant yn gallu canolbwyntio ar yr ochr cymorth ataliol i deuluoedd; gallai hyn gynnwys creu mwy o gyfleoedd i blant gael eu lleoli yn eu rhwydweithiau teuluol eu hunain a/neu gynnig ystod ehangach o wasanaethau gofal seibiant sy'n helpu plant a phobl ifanc i aros gyda'u teulu biolegol. Bydd trefniadau o'r fath, mewn nifer o amgylchiadau, yn gwella'r canlyniadau i blant ac yn gost-effeithiol yn ariannol.
21. Daeth yr adroddiad 'Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad' (2011)³ i'r casgliad y gallai pob mabwysiad llwyddiannus o'r system ofal, lle caiff plentyn drwy fabwysiadu y cymorth sydd ei angen i ddatrys problemau o'i offennol, arwain at adenillion cymdeithasol o dros £1 miliwn fesul lleoliad.

³ PACT, Mabwysiadu a Maethu Domestig: Gwerthuso SROI. Cyflawnwyd y gwerthusiad gan Baker Tilly ac Ysgol Fusnes Cass (Ebrill 2011)

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

22. Bydd sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn rhoi porth i fabwysiadwyr posibl; gallai hyn gynnwys darparu gwybodaeth ar raglenni hyfforddi a phrosesau asesu, a llinell cyngor cyffredinol. Y bwriad yw rhoi cyngor cyson i ddarpar fabwysiadwyr, gan sicrhau bod adnoddau ar gael i symud ceisiadau yn eu blaen ac nad yw cod post rhywun yn ffactor a all gyfyngu'r opsiynau i blant.
23. Bydd angen i'r model Cenedlaethol ymchwilio i gyfuno cyllidebau ledled Cymru, er mwyn dileu'r farchnad gystadleuol rhwng awdurdodau lleol wrth ddelio â lleoliadau mabwysiadu. Dylai hyn yn ei dro arwain at lawer llai o oedi yn y broses i blant a darpar fabwysiadwyr. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyllidebau cyfun wedi'i hen sefydlu ac rydym wedi buddsoddi llawer er mwyn meithrin dealltwriaeth o sut i'w rheoli yn y byd go iawn.

Dibyniaethau Allweddol

24. Er mai panel a 'Phenderfynwr' yr asiantaeth fabwysiadu sy'n ystyried addaswydd plentyn i gael ei fabwysiadu, y llysoedd sy'n penderfynu ai mabwysiadu yw'r peth gorau i'r plentyn ac a ddylid caniatáu Gorchymyn Lleoli/Gorchymyn Mabwysiadu, proses annatganoledig sy'n rhan o gylch gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder (**gweler Ffigur 1**).
25. Yn Chwefror 2012, drwy Ddatganiad Gweinidogol, hysbysais aelodau o gyhoeddiad cydymateb Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol sy'n ymdrin â materion datganoledig ac annatganoledig. Mae'r Adolygiad yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer diwygiadau mawr i'r system cyfiawnder teuluol er mwyn delio â'r oedi, symleiddio'r system a chryfhau rhianta.
26. Bydd creu Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Gymru a Lloegr yn sicrhau mwy o arweiniad a chydgyssylltu ar draws asiantaethau cyflawni yn genedlaethol ac yn lleol, wrth baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau dilynol i'r system. I sicrhau bod materion yng Nghymru yn cael sylw priodol a dyledus mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol a CAF/CASS Cymru, yn ogystal ag uwch-swyddog o Lywodraeth Cymru. Bydd y cynrychiolwyr hyn yn cynghori ar y cyd-destun Cymreig penodol ac ar agweddau datganoledig allweddol ar y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod hawliau a lleisiau plant yn ganolog i'r broses yng Nghymru. At hynny, rwyf wedi sefydlu Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru i ddod â phobl allweddol y system cyfiawnder teuluol ynghyd ar lefel Cymru gyfan, gan sicrhau cyd-ddealltwriaeth leol a nod cyffredin i wella gwasanaethau a chanlyniadau i blant a theluoedd yng Nghymru. Bydd y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yn sicrhau bod cynrychiolwyr Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn cael digon o gymorth er mwyn i faterion Cymreig gael eu hystyried yn y cyd-destun cenedlaethol.
27. Ni all ac ni ddylai gweithwyr cymdeithasol weithio ar wahân wrth wneud penderfyniadau anodd ynghylch mabwysiadu. Mae angen fframwaith rheoleiddiol arnynt sy'n darparu'r rhwystrau a'r amddiffynfeydd sy'n caniatáu iddynt weithio'n hyderus, ond sy'n osgoi dyblygu ac oedi diangen. Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi derbyn argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol i ddileu un o swyddogaethau'r paneli mabwysiadu. Mae'r fframwaith rheoleiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu paneli mabwysiadu, i roi cyngor ar rai penderfyniadau a wneir gan asiantaethau mabwysiadu. Un o rolau paneli mabwysiadu yw rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar y penderfyniad ai mabwysiadu sydd orau i blentyn penodol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni all yr awdurdod lleol weithredu ar y penderfyniad hwnnw a lleoli plentyn i'w fabwysiadu oni bai fod llys teulu yn cytuno i wneud gorchymyn lleoli. Yn yr achosion hyn, dadleuodd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol nad oedd angen i'r panel mabwysiadu ddyblygu rôl y llys drwy ddarparu craffu annibynnol ar y dystiolaeth ym mhob achos unigol. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu'r argymhelliad i ddileu'r rôl hon sydd gan baneli

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

mabwysiadu drwy newidiadau i reoliadau a ddaw i rym ar 1 Medi 2012. Lle na fydd y llys ynghlwm wrth achos, bydd y panel mabwysiadu yn cadw'r swyddogaeth hon.

28. Mae'r Adolygiad hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer datblygiad proffesiynol gweithwyr cymdeithasol, gan roi mwy o bwyslais ar ddatblygiad plant a hyfforddiant i wella cynnwys asesiadau sy'n bodloni gofynion y llysoedd wrth wneud penderfyniadau am blant. Mae'r Adolygiad yn awgrymu y dylai deddfwriaeth newydd osod terfyn amser ar achosion gofal – sef dim mwy na chwe mis i bob achos heblaw'r rhai mwyaf cymhleth ac anodd. Mae hefyd yn argymhell newid y gofynion adnewyddu ar gyfer gorchmynion gofal interim fel nad oes angen i bobl ddychwelyd i'r llys o hyd pan fydd achosion gofal yn parhau⁴. Byddai barnwyr yn gyfrifol am amserlennu a rheoli achosion, yn unol â'r ddeddfwriaeth arfaethedig i bennu terfynau amser ar gyfer achosion gofal. Mae'r Adolygiad yn argymhell na ddylai'r llysoedd, yn y dyfodol, graffu ar fanylion cynllun gofal y plentyn a baratowyd gan yr awdurdod lleol. Dim ond ar y materion hanfodol y dylai graffu, sef ble y dylai'r plentyn fyw ar ddiwedd yr achos gofal a faint o gyswllt y dylai ei gael ag aelodau'r teulu os na fydd yn dychwelyd adref. Ceir sawl argymhelliad ar wella'r hyfforddiant i farnwyr ac ar sicrhau dilyniant barnwrol mewn achosion plant. Mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell creu un llys teulu yn lle'r llys tair haen presennol.
29. Yn ogystal â dileu'r swyddogaeth benodol hon sydd gan baneli, ac yng ngoleuni newidiadau pellach i'r gwasanaeth mabwysiadu yng Nghymru drwy sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dileu'r rheoliad sy'n cyfyngu ar sefydlu cyd-baneli mabwysiadu gan unrhyw ddau ond dim mwy na thri awdurdod lleol.

Fframwaith Cyfreithiol

30. Ni fydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gweithredu fel "asiantaeth fabwysiadu" fel y cyfeirir ati yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a wnaethpwyd o dan adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Bydd y corff newydd, fodd bynnag, yn cael ei arolygu o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd y trefniadau ar gyfer arolygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael eu nodi yn y rheoliadau.

Sylwadau cloi


31. Nod ac amcan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yw rhagori mewn mabwysiadu drwy sicrhau lleoliadau teuluol parhaol o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y byddai mabwysiadu yn llesol iddynt. Bydd angen i'r gwasanaeth newydd ddod yn un pwynt cyfeirio i'r holl blant â chynllun mabwysiadu, drwy sefydlu a chynnal un gofrestr.
32. Yr unig ffordd o sicrhau perchenogaeth o'r diwygiadau hyn yw drwy lywodraeth leol a sector gwirfoddol sy'n gwerthfawrogi'r manteision ac yn eu huchafu drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd a gwaith partneriaeth effeithiol i ehangu cydweithredu.
33. Ym marn Llywodraeth Cymru, y ffordd orau o gyflawni'r rhaglen hon ar gyfer newid yw drwy waith partneriaeth a chydweithredu cryf ag awdurdodau lleol, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Mae Grŵp Cyngori Arbenigol ar Fabwysiadu wedi'i sefydlu i oruchwylio datblygiad Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a fydd yn ysgogi gwelliannau mewn perfformiad ledled Cymru o ran gwasanaethau mabwysiadu penodol yng Nghymru.

⁴ Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol – Tachwedd 2011

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru


34. Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r tu mewn i system fabwysiadu Cymru, i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a nod cyffredin wrth oruchwylio, cydgysylltu a gwella gwasanaethau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru y byddai mabwysiadu yn llesol iddynt, ac i gynnig gwasanaeth sy'n annog ac yn croesawu ystod eang o ddarpar fabwysiadwyr; mae angen iddo'u paratoi yn drwyadl ar gyfer yr heriau a'r pleserau niferus sy'n gysylltiedig â rhoi cartref cariadlon i blentyn; ac i amlhau'r niferoedd sy'n mynd ymlaen i fabwysiadu'n llwyddiannus.
35. Cylch gwaith y Grŵp hwn yw ystyried cynigion gan awdurdodau lleol a'u partneriaid wrth ddatblygu fframwaith ar gyfer model gwasanaeth cenedlaethol, sy'n gweithredu dan system ddwy haen (lleol a chenedlaethol) ac sy'n ymdrin â phryderon cyfredol, heb gollu cryfderau diamheuol y system bresennol – gan sicrhau newid heb niwed.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Mehfin 2012**



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

Ffigur 1: Y rhaniad gweithdrefnol rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Llysoedd



Allwedd

- Cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol (ALI)

Children and Young People Committee – School Standards and Organisations (Wales) Bill

This document outlines the contributions of the groups and participants that the Outreach Team has conducted focus groups with. The group's details were provided by networks such as ESTYN, Governors Wales and PTA UK.

Summary

Groups worked with

English medium primary
Welsh medium primary
English medium Secondary
Welsh medium Secondary
Faith
Special Education

Total number of participants

45

Total number of schools represented

34

School organisation

Group name	Does the current process for determining school organisation proposals need to be reformed?
Eagleswell Primary School and Nursery Unit - Vale of Glamorgan	Yes. The current process is too long. Three months for the promoter to make a decision following the opportunity to object is too long.
Cartref Bontnewydd	Yes- even though the group weren't really informed on the process before hand when explained to them they thought proposals should be reformed.
Swansea Association of Governing Bodies	Yes. Many individuals within the group are aware of this process and have dealt with it in the past.
Bridgend Governors Association	A few of the group had been involved and were aware of the process, but didn't suggest it needed changing.

Group name	What are the advantages and/or disadvantages of the current process?
Eagleswell Primary School and Nursery Unit - Vale of Glamorgan	<p>Advantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • It gives people who are disconnected from the local issues (WG) the ability to make the decision, so in theory they would be more likely to be impartial. • It gives local people the ability to contribute during the proposer's consultation period at public meetings. <p>Disadvantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • Consultation processes are not mandatory. • The WG may not know enough about the school and the issues attached. Being detached from local issues was seen as both a positive and a negative. • Process for local councillors, parents, school governors, teachers and headmaster to be involved doesn't seem to be mandatory. • School governors, the headmaster and parents should be involved in the final decision, not just the WG.
Cartref Bontnewydd	<p>Advantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • Even if the proposal only receives 1 objection- it is taken seriously (even though the group did question the resource/ cost implication of this method). <p>Disadvantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • The group felt that the 'proposer' had a lot of influence in the early stages- undertaking consultation, analysing responses and decide whether to proceed. They questioned if this was done in an impartial manner, for example who decides who is consulted, how is the decision made as the 'proposer' has an obvious interest in the matter.
Swansea Association of Governing Bodies	<p>Advantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • The guidance outlining the need to consult. Consultation with local people is usually difficult and passionate, but necessary

	<ul style="list-style-type: none"> • A lot to be said about the final decision being made by someone detached from local issues. <p>Disadvantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • Many didn't like the fact that local authorities and other bodies have strict and tight deadlines to reach within the process, but the same didn't seem to apply to the Welsh Ministers. • The group thought that 4–6 months was too long a time to wait for the Welsh Ministers to issue their decision. One of the main reasons for this was that individuals who may be affected by any change would be very anxious for a decision, and would want it as soon as possible. Ministers dragging their heels makes this period very tense for all involved. • Some individuals within the group raised concerns that the final decision is made by a person/body who are not aware of local feeling, and do not take such factors into consideration. However others later saw this as a benefit. • Consultation period is perceived by many as a box ticking exercise. Many of the group felt that once it has got to a stage where they are consulting on the matter that the decision had already been made, regardless of people feelings.
Bridgend Governors Association	<p>Advantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • None mentioned <p>Disadvantages</p> <ul style="list-style-type: none"> • One person objecting is too small a threshold • Clarification over what an objection actually constitutes is needed. In one past instance, one of the group wanted clarification on a proposer's plans, but it was seen as an objection. As a result this triggered a consultation process, when all he wanted was more information. • Consultation is done without considering those who will be affected in the future, i.e. parents at a local primary school, if the proposal relates to a secondary school in the area. • At the moment the process isn't transparent. Though it states that the Minister makes the final decision, it doesn't give any real detail on how he or she may reach that decision. The group felt that it may not be the Minister but some of his supporting team that actually make these decisions.

Group name	Is it appropriate that an objection to a proposal from a single objector without a direct interest in a school causes a referral to Welsh Ministers?
Eagleswell Primary School and Nursery Unit – Vale of	<ul style="list-style-type: none"> • No – the WG shouldn't have to deal with objections just because one person has objected. • The whole group said that the threshold for objectors

Glamorgan	should be a number or percentage (whichever is lower), as is proposed with parents meetings. This would mean that smaller schools would not be at a disadvantage.
Cartref Bontnewydd	<ul style="list-style-type: none"> No –this was seen as an unnecessary and wasteful way of dealing with objections.
Swansea Association of Governing Bodies	<ul style="list-style-type: none"> The group felt that this would take up a lot of the Ministers time. The group did feel that there should be a percentage and number associated with the proposed threshold, as is the case with annual parents’ meetings proposals.
Bridgend Governors Association	<ul style="list-style-type: none"> No, should be more.

Group name	What are your views on the introduction of a statutory Code on School Organisation?
